# Competition Brief

| Competition title |
|---|
| Web Design |
| **Competition overview** |
| This Web Design competition consists of one practical task which is to design and code a valid and responsive website. For this competition you will be required to demonstrate the ability to create effective and accurate design documentation, using wireframes which reflect the final product. You will also need to demonstrate the ability to code up valid web pages (according to good coding standards) as well as cascading style sheets to control the appearance of the elements of the web page. Client-side scripting should be used to add animation and interactivity plus provide a complex validation function to validate key input to a detailed constructed contact form.<br>You must also demonstrate how to ensure a web site can be responsive to ensure it can be seen in both browsers and mobile devices with only one style sheet to control both browser and mobile devices. This can be achieved through the use of supplied libraries, or your own CSS code.<br>At this stage you will not be expected to work with server-side scripting.<br>You will not have access to the Internet on the day of the competition. |
| **Entry criteria** |
| This competition is aimed at individual students studying on vocational course up to Level 3.<br>A maximum of 3 learners per organisation can be registered.<br>There will be a maximum of 8 in each heat.<br>Entrants should have experience of creating web sites, and working with HTML5, cascading style sheets and JavaScript. Entrants should have experience using either a HTML editor such as Dreamweaver, or a text editor such as Brackets or Notepad++. |
| **Number by location/organisation** |
| |
| **Brief** |
| This Web Design competition consists of one practical task which is to design and code a website. All content is provided and can be used in any way the competitor sees fit, but they cannot be added to. |

All content for this task will be provided to you on the day of competition within the client brief, along with some website designs that the client would like you to utilise. All of the provided content can be used in any way that the competitor sees fit, as long as it ties in with the client brief. Additionally, the client would like a jQuery slider implemented within the website.

If the website produced is, in the opinion of the judges, closely related to any existing website, or libraries are used which are not authorised, marks will be deducted accordingly.

**Instructions**

The minimum number of pages you are required to submit is 5.

At the end of the competition, you must have provided:

1. 2 wireframes for 2 separate pages (eg. Home Page, Contact page)
2. A published website of at least 5 pages, demonstrating careful selection of material for each page (one of these pages must be a contact form)
3. At least one external CSS sheet connected to multiple pages
4. A contact form enabling people to submit requests for information from the website using the appropriate input fields (for example, email address, first name, last name, message)
5. Validation functions must be apparent to check data entry on key fields.
6. A jQuery slider/ slideshow used on the home page of the website, using only the assets provided. The slider should have some way to enable the user to control the playback.

**Guidance**

The content of your site should take into account the following:

- Page layout and appearance is appropriate to the intended audience
- Graphic size is appropriate for transmission across the Internet in terms of dimensions and file size
- graphic positioning and typography is suitable
- navigation is obvious and reliable
- links, buttons and checkboxes give high level of interactivity
- page titles have been used to improve search engine optimisation
- 'alt' attribute has been used on images to enhance accessibility
- folder management is appropriate
- files are named effectively

## Infrastructure List

Please refer to the provided software list below:

Software

- Windows 7 Professional
- Office 2013
- Adobe CC
- Brackets
- Notepad ++

Libraries

- jQuery
- jQuery UI
- Bootstrap

All pages must be written in HTML 5 with external CSS support.

## Competition rules

- Judges have been drawn from industry and education. The judges' decisions will be independently moderated and quality assured before being confirmed. Feedback will be provided to all competitors
- Use only the materials supplied in the Digital Media Pack.
- Competitors must work independently (without support from other students/tutors)
- Refrain from including offensive, sexual, political, controversial or inflammatory text or images.
- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.
- No Internet access will be available throughout the competition.

- Competitors are solely responsible for the saving of their own files, especially in the unfortunate event of a computer malfunction. Instructions will be given as to where the files need to be saved.
- The competitors must not work, touch the computer or any other material connected to the competition before the starting signal, and must stop working and not touch the computer or any other materials connected to the competition after the stop signal. This also goes for the lunch break signals.
- Competitors are not allowed to use any materials other than that supplied for the set project by the event Competition Supervisor. No prepared work will be allowed in the competition.

## Marking and assessment

The marking criteria of the competition will reflect the relative significance of particular design form within the workflow, paying particular attention to the following areas.

| Criterion ID | Description | | Max. Marks |
|---|---|---|---|
| A | Organisation | | 6 |
| B | HTML / Markup | | 20 |
| C | Javascript / JQuery | | 6 |
| | | Total Marks | 32 |

## Feedback and recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. Written feedback will not be provided, however, mark sheets can be provided at a later stage.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

Certificates of Participation will be issued on the day.

Medallists will be invited to a Celebration Event which will be held on 19th March 2020 at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff CF11 9XR from 12pm to 5pm, where the First, Second and Third Awards will be presented. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Competition Lead

**All enquiries:**

Olivia Clemence Email: olivia.clemence@colegsirgar.ac.uk

**Additional Contact**

Rachel Arnold Email Rachel@pandaeducation.co.uk

## Briff y Gystadleuaeth

| **Teitl y gystadleuaeth** |
|---|
| Dylunio Gwefannau (Uwch) |
| **Trosolwg o'r gystadleuaeth** |
| Mae'r gystadleuaeth Dylunio Gwefan yn cynnwys un dasg ymarferol, sef dylunio a chodio gwefan dilys ac ymatebol (*responsive*). Ar gyfer y gystadleuaeth, bydd angen i chi arddangos y gallu i greu dogfennaeth dylunio effeithiol a chywir, gan ddefnyddio fframiau gwifren (*wireframes*) sy'n adlewyrchu'r cynnyrch terfynol. Bydd angen i chi hefyd ddangos y gallu i godio tudalennau gwe dilys (yn unol â safonau codio da) yn ogystal â thaflenni arddull rhaeadru (*cascading*) er mwyn rheoli golwg elfennau o'r dudalen we. Dylid defnyddio sgriptio gan y client i ychwanegu animeiddiad a rhyngweithiad yn ogystal â darparu swyddogaeth dilysu cymhleth er mwyn dilysu gwybodaeth allweddol ar gyfer ffurflen gyswllt fanwl sydd wedi'i greu.<br>Bydd angen i chi hefyd ddangos sut i sicrhau bod gwefan yn ddigon ymatebol er mwyn sicrhau bod modd edrych arno trwy borwr a dyfeisiadau symudol, gydag dim ond un daflen arddull i reoli'r ddau. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio'r llyfrgelloedd a ddarperir, neu drwy defnyddio eich cod CSS eich hunan.<br>Ni fydd disgwyl i chi weithio gyda sgriptio ar ochr y gweinydd (*server-side scripting*) ar y cam yma. Ni chaniateir mynediad i'r we ar ddiwrnod y gystadleuaeth. |
| **Meini prawf cystadlu** |
| Mae'r gystadleuaeth wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau galwedigaethol hyd at Lefel 3<br>Gall pob sefydliad gofrestru uchafswm o 3 dysgwr.<br>Bydd uchafswm o 8 ym mhob rhagbrawf.<br>Dylai ymgeiswyr gael profiad o greu gwefannau, a gweithio gyda, taflen arddull rhaeadru a JavaScript. Dylai ymgeiswyr gael profiad o ddefnyddio un ai golygydd HTML fel Dreamweaver, neu olygydd testun fel Brackets neu Notepad++. |
| **Nifer fesul lleoliad/sefydliad** |
| |
| **Briff** |
| Mae'r gystadleuaeth Dylunio Gwefan yn cynnwys un dasg ymarferol, sef dylunio a chodio gwefan. Darperir yr holl gynnwys a gellir ei ddefnyddio gan y cystadleuwr mewn unrhyw fodd, ond ni ellir ychwanegu ato. |

Darperir holl gynnwys y dasg ar eich cyfer ar ddiwrnod y gystadleuaeth o fewn briff y client, ynghyd ag ychydig o ddyluniadau gwe yr hoffai eich client i chi eu defnyddio. Gellir defnyddio'r cynnwys mewn unrhyw fodd, cyn belled â'i fod yn cyd-fynd â briff y client. Yn ychwanegol, byddai'r client yn hoffi petai llithrydd jQuery (*slider)* yn cael ei ddefnyddio o fewn y wefan.

Pe bai'r wefan a gynhyrchir, ym marn y beirniaid, yn edrych yn debyg iawn i wefan sy'n bodoli'n barod neu fod llyfrgelloedd sydd ddim yn cael eu caniatáu wedi'u defnyddio, bydd marciau yn cael eu tynnu.

**Cyfarwyddiadau**

Rhaid cyflwyno lleiafswm o 5 tudalen.

Ar ddiwedd y gystadleuaeth, bydd rhaid i chi ddarparu:

1) 2 ffrâm wifren ar gyfer 2 dudalen ar wahân (e.e. Tudalen Hafan, Tudalen Gyswllt)
2) Gwefan wedi'i gyhoeddi, gyda lleiafswm o 5 tudalen , gan arddangos dewis gofalus o ddeunydd ar gyfer pob tudalen (mae'n rhaid bod un o'r tudalennau yn ffurflen gyswllt)
3) O leiaf un dudalen CSS allanol sy'n gysylltiedig â thudalennau lluosog.
4) Ffurflen gyswllt (*Contact form*) sy'n galluogi pobl i wneud cais am wybodaeth o'r wefan gan ddefnyddio meysydd gwybodaeth priodol (e.e. cyfeiriad e-bost, enw cyntaf, cyfenw, neges).
5) Swyddogaethau dilysu (*validiation functions*) amlwg er mwyn gwirio'r data a fewnbynnir yn y meysydd allweddol.
6) Llithrydd/ sioe sleidiau jQuery wedi'i ddefnyddio ar dudalen hafan y wefan, gan ddefnyddio'r asedau a ddarperir yn unig. Dylai'r llithrydd gael rhyw fath o ffordd sy'n galluogi'r defnyddiwr i reoli'r chwarae.

**Canllawiau**

Dylech ystyried y canlynol wrth benderfynu beth fydd cynnwys eich safle:

- Bod gosodiad a gwedd y tudalennau yn addas ar gyfer y gynulleidfa dan sylw.
- Bod maint y graffeg yn addas ar gyfer trosglwyddo dros y we, yn nhermau dimensiynau a maint ffeiliau a bod y graffeg a'r deipograffeg yn addas.
- Gwe-lywio yn amlwg a dibynadwy.
- Dolenni, botymau a bocsys gwirio (*checkboxes*) yn rhoi lefel uwch o ryngweithiad
- Bod teitlau'r tudalennau yn gwella optimeiddio ar y peiriannau chwilio (*optimisation*).
- Priodoledd 'alt' wedi'i ddefnyddio ar ddelweddau er mwyn gwella hygyrchedd.

- Bod rheolaeth addas ar y ffolderi.
- Bos y ffolderi wedi'i henwi'n briodol.

## Rhestr Seilwaith

Os gwelwch yn dda, cyfeiriwch at y rhestr meddalwedd a ddarperir isod:

**Meddalwedd**

- Windows 7 Professional
- Office 2013
- Adobe CC
- Brackets
- Notepad ++

**Llyfrgelloedd**

- jQuery
- jQuery UI
- Bootstrap

Rhaid i'r holl dudalennau gael eu hysgrifennu mewn HTML 5 gyda chefnogaeth CSS allanol.

## Rheolau'r gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- Mae'r beirniaid wedi'u dewis o fyd diwydiant a byd addysg. Bydd penderfyniadau'r beirniaid yn cael eu hasesu'n annibynnol, a bydd yr ansawdd yn cael ei sicrhau cyn eu cadarnhau. Darperir adborth i'r holl gystadleuwyr.
- angen defnyddio'r deunyddiau o fewn y **Pecyn Cyfryngau Digidol** yn unig.
- Rhaid i'r cystadleuwyr weithio'n annibynnol (heb gefnogaeth gan fyfyrwyr/tiwtoriaid eraill).
- Ymatal rhag defnyddio testun neu luniau sarhaus, rhywiol, dadleuol neu ymfflamychol.
- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.
- Ni roddir mynediad i'r we yn ystod y gystadleuaeth.
- Y cystadleuwyr sy'n gyfrifol am arbed eu ffeiliau eu hunain, yn enwedig os bydd

digwyddiad anffodus fel y cyfrifiadur yn methu. Bydd cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi ynglŷn â ble i arbed y ffeiliau.

- Ni ddylai'r cystadleuwyr weithio, cyffwrdd a'r cyfrifiadur nag unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth yn dilyn cyhoeddi diwedd y gystadleuaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol dros ginio.
- Nid yw'r cystadleuwyr yn cael defnyddio unrhyw ddeunyddiau eraill oni bai am yr hyn sydd wedi'i ddarparu ar gyfer y gystadleuaeth gan Oruchwylydd y Gystadleuaeth. Ni chaniateir unrhyw waith wedi'i baratoi ymlaen llaw yn y gystadleuaeth.

## Marcio ac asesu

Mae meini prawf marcio'r gystadleuaeth yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol y math o ddyluniad a ddefnyddiwyd o fewn y llif gwaith. Rhoddir sylw penodol i'r meysydd canlynol:

| Maen Prawf | Disgrifiad | | Uchafswm y marciau |
|---|---|---|---|
| A | Trefnu | | 6 |
| B | HTML / Markup | | 20 |
| C | Javascript / JQuery | | 6 |
| | | **Cyfanswm y marciau** | 32 |

## Adborth a chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth. (Ni roddir adborth ysgrifenedig)

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd Tystysgrifau Cyfranogi'n cael eu dosbarthu ar y diwrnod.

Bydd enillwyr medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm, lle y bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyflwyno.

https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt**

Olivia Clemence olivia.clemence@colegsirgar.ac.uk

**Cyswllt ychwanegol**

Rachel Arnold rachel@pandaeducation.co.uk